**EUR(2) 06-04(p7)**

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

**Dyddiad:** **1 Gorffennaf 2004**

**Amser:** **09:00 am**

**Lleoliad:** **Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Teitl:** **Craffu ar ddeddfwriaeth yr UE: Rheolau Cymorth y Wladwriaeth**

## Diben

1. Mae’r papur hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau ar faterion amrywiol sy’n ymwneud â’r drefn ar gyfer Cymorth y Wladwriaeth. Papur er gwybodaeth yn unig ydyw, ac efallai y bydd yr Aelodau am ei ddarllen ar y cyd ag (a) y nodyn briffio a ddarparwyd gan Dr Rose D’Sa, Ymgynghorydd Ewropeaidd, Morgan Cole, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 27 Mai a (b) y papur EDTC 08-04(p3), a drafodwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 16 Mehefin.

   Crynodeb

2. Mae’r Comisiwn yn diwygio gwahanol elfennau ar drefn cymorth y wladwriaeth, gan gynnwys: datblygu Prawf Effaith Sylweddol; adolygu’r canllawiau ar gymorth rhanbarthol; Gwasanaethau o Ddiddordeb Economaidd Cyffredinol (SGEI); a rheolau sy’n llywodraethu gweithgareddau ymchwil a datblygu. Mae gan y Comisiwn rym llwyr o ran materion cymorth y wladwriaeth, ond mae’n ymgynghori’n eang ag Aelod-wladwriaethau o ran datblygiadau yn y dyfodol. Yn ei gyfarfod cyntaf ar 26 Ebrill, ystyriodd Is-bwyllgor y Cabinet ar Gronfeydd Strwythurol bapur ar gymorth y wladwriaeth.

   Ystyriaeth

3. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru uned fach o fewn ei His-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol sy'n goruchwylio datblygu polisi cymorth y wladwriaeth gyda'r Is-adran Polisi Economaidd yn arwain ar adolygu’r canllawiau ar gymorth rhanbarthol (Map AA). Mae'r holl adrannau polisi (gan gynnwys WEFO) ac unrhyw gorff arall yng Nghymru sy’n gwario arian cyhoeddus i gefnogi gweithgareddau economaidd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â'r rheolau ar gymorth y wladwriaeth.

4. Mae yna gysylltiad agos rhwng agweddau ar drefn cymorth y wladwriaeth a'r cronfeydd strwythurol. Cafodd Is-bwyllgor y Cabinet ar Gronfeydd Strwythurol bapur ar gymorth y wladwriaeth yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill. Yn wahanol i gronfeydd strwythurol, mae cymorth y wladwriaeth yn dod o fewn grym llwyr y Comisiwn, ond mae'r Comisiwn yn ymgynghori yn rheolaidd ac mae wedi trefnu bod swyddogion ar gael ar gyfer gwaith briffio rheolaidd, a hynny ym Mrwsel ac, er enghraifft, yn ystod ymweliad diweddar uwch swyddog yng Nghyfarwyddiaeth Gyffredinol Cystadleuaeth, Wouter Pieke, a drefnwyd gan swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru.

## Prawf Effaith Sylweddol

5. Mewn nodyn briffio ar gyfer Morgan Cole Associates, y bu Dr Rose D'Sa mor garedig â threfnu ei fod ar gael i Aelodau EEAC ar ôl y cyfarfod diwethaf, crynhodd Dr D'Sa y sefyllfa fel yr oedd ym Mawrth 2004 o ran datblygu dau fodel ar gyfer profi "Effaith Sylweddol". Gelwid y rhain yn Symiau Llai o Gymorth y Wladwriaeth (LASA) ac Effaith Gyfyngedig ar Fasnach (LET). Bu'r Comisiwn yn ceisio ers tro dod o hyd i ffordd o ddod ag elfen o gymesuredd i'w weithdrefnau asesu. Er y bydd angen parhau i hysbysu lefelau o gymorth fel y maent yn awr, mae'r prawf effaith sylweddol yn ffordd o gadw'r baich gweinyddol i'r lleiaf posibl lle mae symiau llai o gymorth yn cael eu rhoi, fel isod.
6. Ar ôl ymgynghori, mae Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cystadleuaeth wedi penderfynu hepgor yr ail o'r profion hyn, a bydd yn mynd ar drywydd mabwysiadu'r prawf LASA yn unig gan y Comisiwn.

7. Gan ddefnyddio model LASA, gallai ymgymeriad gael ei gynorthwyo hyd at uchafswm o €1m dros gyfnod o 3 blynedd. Rhaid hysbysu cymorth ymlaen llaw a rhaid iddo gael ei gymeradwyo cyn iddo gael ei weithredu, ac er y gallai arian cyhoeddus godi i €1m rhaid iddo beidio â bod yn fwy na 30% o gyfanswm y costau. Er nad offeryn cymorth rhanbarthol yw LASA yn benodol, gellid ei ddefnyddio i gefnogi mentrau cymunedol unrhyw le yn yr UE, o fewn cap cenedlaethol, a seilir ar GDP a phoblogaeth yr UE. Cylchredwyd papur o'r Comisiwn gan Lywodraeth y Cynulliad i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Anfonwyd ein hymateb at Gangen Cymorth y Wladwriaeth yr Adran Masnach a Diwydiant yn Ionawr 2004, yn croesawu'r cynigion fel ffordd ddefnyddiol o bosibl o lacio'r rheoliadau presennol ynghylch cymorth y wladwriaeth o dan rai amgylchiadau. Ysgrifennodd yr Adran Masnach a Diwydiant at y Comisiwn ym Mawrth, yn tynnu sylw yn arbennig at yr angen i gadw'r Profion Effaith Sylweddol o dan ystyriaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â chynigion rhanbarthol UE y Comisiwn ar ôl 2006.

8. Dylid nodi na fydd LASA mewn grym ond tan fis Rhagfyr 2006. Er ei fod i bob pwrpas yn cynnig gweithdrefnau gweinyddol "ysgafnach" am ryw gymaint o gymorth i bob Aelod-wladwriaeth hyd at drothwy arbennig i bob prosiect, hyd yn oed ar gyfer cwmnïau mwy, ni fydd yn dileu yn llwyr yr angen i hysbysu'r Comisiwn ynghylch rhoi'r cymorth hwn.

9. Fel y mae nodyn Dr D’Sa yn cofnodi, nid ystyrir bod cymorth de minimis i gwmnïau yn gymorth y wladwriaeth ac felly gellir cronni cymorth a roddir o dan gynllun LASA gydag unrhyw gymorth de minimis (mae'r rheol de minimis yn caniatáu arian cyhoeddus o hyd at €100,000 ar gyfer ymgymeriad dros gyfnod o 3 blynedd). Pan fydd aelod-wladwriaeth wedi disbyddu ei "ddyraniad" o gymorth LASA, bydd rhaid defnyddio fframweithiau eraill.

## Adolygiad o Ganllawiau Cymorth Rhanbarthol

10. Dosbarthodd yr Adran Masnach a Diwydiant ddogfen ymgynghori i bob rhanddeiliad yn y DU ar 14 Mehefin yn ceisio ymatebion erbyn 1 Gorffennaf er y derbynnir sylwadau hyd at 6 Medi. Anfonir copïau o'r holl ymatebion o Gymru i Lywodraeth y Cynulliad (ysgrifennais at Patricia Hewitt ar 11 Mehefin yn cadarnhau’r trefniadau). Ystyriwyd papur gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 16 Mehefin (EDTC 08-04(p3)).

## Gwasanaethau o Ddiddordeb Economaidd Cyffredinol (SGEIs).

11. Maes sydd o ddiddordeb cynyddol i’r Comisiwn yw SGEI oherwydd y nifer cynyddol o wasanaethau annelwig a ddarperir gan gwmnïau preifat ar ran y sector cyhoeddus. Mae gan y Comisiwn ddiddordeb mewn sicrhau nad yw’r cwmnïau preifat yn cael gormod o iawndal oddi wrth y wladwriaeth am gyflwyno’r gwasanaethau. Mae cymhlethdod yn codi oherwydd y byddai’r gwasanaeth y mae ei angen, yn y mwyafrif o achosion, y tu hwnt i’r hyn y byddai gan ymgymeriad preifat ddiddordeb mewn ymgymryd ag ef heb gymorth oddi wrth y wladwriaeth. Gellid dod o hyd i enghreifftiau o hyn yn y sectorau band eang, gwaredu gwastraff, trafnidiaeth gyhoeddus a thai cymdeithasol. Am nad oes diffiniad cytûn o SGEI, ni fyddai gwahanol aelod-wladwriaethau o reidrwydd yn rhestru’r un gwasanaethau, pe gofynnid iddynt wneud hynny.

12. Mae Cangen Cymorth y Wladwriaeth yr Adran Masnach a Diwydiant wedi gofyn am safbwyntiau yn ddiweddar ar Eithriad Bloc gan y Comisiwn ar gyfer SGEI bach, lleol fel y crynhowyd yn nodyn Dr D’Sa. Mae’r Adran Masnach a Diwydiant wedi gofyn yn arbennig am safbwyntiau ynghylch a hoffem gynnwys yn yr Eithriad Bloc fel yr awgrymwyd gan rai Aelod-wladwriaethau, restr benodol o weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi’u heithrio ac, os felly pa wasanaethau yr hoffem iddynt gael eu rhestru. Mae’n ymddangos ar y cyfan ei bod orau gan aelod-wladwriaethau allu diffinio eu SGEIs eu hunain, gyda’r GE yn ymyrryd yn unig mewn achosion o gamgymeriad amlwg.

13. Yn achos cwmnïau gwasanaethau cyhoeddus mwy, cynigir fframwaith drafft er mwyn i’r Comisiwn allu asesu a yw’r ymgymeriad wedi cael gormod o iawndal gan y sector cyhoeddus am wasanaethau a roddwyd.

14. Er hynny, mae angen canllawiau cliriach ar nifer o bynciau megis eithrio rhai SGEIs bach o hysbysu a gormod o iawndal am wasanaethau a ddarperir (beth yw lefel resymol o elw y gellid ei ddisgwyl gan yr ymgymeriad sy'n darparu’r gwasanaeth?).

## Fframwaith Ymchwil a Datblygu

15. Daw’r Fframwaith Ymchwil a Datblygu presennol i ben ar ddiwedd 2005 ac ymgymerwyd â phroses ymgynghori fewnol (gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru) ar bapur sefyllfa gychwynnol y DU.

## Ymgynghoriad Asesu Risg

16. Mae’r Adran Masnach a Diwydiant a Thrysorlys Ei Mawrhydi wedi cynhyrchu papur ar "Risk Assessment" Cymorth y Wladwriaeth sydd wedi’i ddosbarthu yn eang yng Nghymru. Nod y papur yw amlinellu ymagwedd bragmataidd at benderfyniadau a seilir ar risg mewn achosion Cymorth y Wladwriaeth. Cafodd y papur ei groesawu yn gyffredinol a chafodd y tri ymateb sylweddol o Gymru (Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) eu bwydo yn ôl i’r Adran Masnach a Diwydiant/Trysorlys Ei Mawrhydi.

## Gweithgareddau Diwygio Eraill

17. Mae’r canllawiau ar Adfer ac Ailstrwythuro ar fin dod i ben yn Rhagfyr 2004 ac mae Aelod-wladwriaethau bellach yn ystyried cynigion ar gyfer newid. Mae'r rhain yn cynnwys cysyniad newydd o "gymorth brys" i ddisodli "cymorth adfer" a fydd yn caniatáu i gwmnïau ymgymryd â mesurau brys gyda gweithdrefn hysbysu symlach.

18. Daw’r Fframwaith Ymchwil a Datblygu presennol i ben ar ddiwedd 2005 ac mae’r Adran Masnach a Diwydiant yn ymgymryd â phroses ymgynghori ar y ffordd ymlaen. Mae’r Canllawiau ar Gymorth Amgylcheddol hefyd yn cael eu hadolygu ond nid yw’n debygol y cyhoeddir y canllawiau newydd cyn 2007.

19. Mae Canllawiau Cymorth y Wladwriaeth ar gyfer Ffilmiau ar fin dod i ben ym Mehefin 2004 ac mae’r GE wedi bod yn disgwyl eu diwygio o safbwynt lleihau’r gofyniad i wario rhan o’r gyllideb ffilmiau yn yr Aelod-wladwriaeth sy’n cefnogi’r prosiect. Mae Llywodraeth y DU wedi galw i’r sefyllfa bresennol gael ei chadw ac mae’r mwyafrif o Aelod-wladwriaethau yn cefnogi’r egwyddor hon.

## Cydymffurfio

20. Mae Rheol Sefydlog 15, yn enwedig 15.2 a 15.3 yn rhoi i’r Pwyllgor y swyddogaeth o fonitro "effaith gyffredinol a chanlyniadau’r polisïau a ddilynir gan sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru" a thynnu "sylw pwyllgorau pwnc perthnasol at faterion penodol".

## Goblygiadau Ariannol

21. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i’r Cynulliad yn deillio yn uniongyrchol o’r materion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

Cyswllt yr Is-adran: Cangen Materion Ewropeaidd ac Allanol 2, Pennaeth y Gangen: Jackie Brown (est 3157)

**Rhodri Morgan AC**

**Prif Weinidog Cymru**